**Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn**

**5/2/19**

**Presennol:** Alwyn E Jones (Cadeirydd), Rhodri Jones, (Is-gadeirydd), Huw Antur, Beryl Hughes Griffiths, Arwel Lloyd Jones, Dewi Jones, Heledd Jones, Karl Jones, Huw P Roberts, Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

**Ymddiheuriadau:** Lindsey Ellis-Edwards, Alwyn Roberts, Alan Jones Evans, (Cynghorydd Gwynedd)

**Nid** oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda – *gweler y Rheolau ar y wefan, neu cysyllter gyda'r Clerc*

**1958** **Croesawyd p**awb gan yr Is-gadeirydd, Rhodri Jones. Darllenodd englyn gan y Cadeirydd i nodi pen-blwydd Mrs Eluned Evans yn gant oed ar 9/2/19 a diolchwyd iddo am ei waith ac am drefnu i'r englyn gael ei fframio. Dymunwyd pen-blwydd hapus iawn i Mrs Evans.

**1959** **Buddiant:** Derbyniwyd datganiadau buddiant yn eitem 1965, Cyfraniadau Ariannol, gan Dewi Wyn Jones a Nia Heledd Jones.

**1960** **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Ionawr 8fed, 2019.

**1961** **Materion y Clerc :** O gyfarfod mis Ionawr:-

i. 1951 Triathlon 2019 – derbyniwyd neges yn diolch i'r Cyngor am gyd-weithio ac yn cadarnhau'r trefniadau newydd ar gyfer Triathlon 2019 ar benwythnos olaf mis Mehefin.
ii. 1952 Cadarnhawyd trefniadau'r Noson Goffi ar 13/2/19 a gofynnwyd i'r Cadeirydd enwebu elusen o'i ddewis.
iii. 1953 Biniau halen - derbyniwyd rhestr o'r biniau yn y gymuned; cytunwyd i anfon i roi gwybod i Gyngor Gwynedd am rai eraill yn ogystal.

**1962** **Cyngor Gwynedd:** Anfonodd y Cynghorydd Sir, Alan Jones Evans wybodaeth bellach ar ail strwythuro canolfannau iaith; fe fydd y newidiadau'n cwrdd â'r diffyg yn y gyllideb sydd ar eu cyfer ac yn arwain yn y pen draw at wella'r gwasanaeth.

**1963** **Is-Bwyllgor Paneli Gwybodaeth**: derbyniwyd adroddiad o waith yr Is-bwyllgor a chopi o un panel. Cytunwyd i geisio prisiau i greu gwefan a fydd yn cysylltu trwy QR gyda'r paneli. Adroddwyd o'r is-bwyllgor cyllid y gellid ariannu hwn ymhellach i'r swm yn y grant oherwydd arbedion yn y flwyddyn.

**1064** **Materion Eiddo'r Cyngor:** Derbyniwyd Adroddiad Karl Jones. Mae'r unig adeiladwr a oedd yn fodlon prisio gwaith adnewyddu'r toiledau yn sâl ar hyn o bryd felly nid oes cynnydd wedi bod yn y prosiect.

Dywedodd Rhodri Jones fod Rhys Owen o Barc Cenedlaethol Eryri wedi dweud bod blwyddyn arall i gwblhau'r gwaith a bod y rhaglen waith yn cael ei baratoi ar hyn o bryd.

1965 **Materion ariannol:** Cytunodd yr is-bwyllgor cyllid y gellid cyfrannu hyd at £2,000 o'r arbedion yn y flwyddyn. Cytunwyd ar symiau i'w cyfrannu tuag at fudiadau a chymdeithasau:

| | |
|---|---|
| Llên y Llannau | £100 |
| Teulu Gwalia | £50 |
| Adran Bentref yr Urdd | £200 |
| Eisteddfod y Llungwyn | £100 |
| Canolfan y Plase | £100 |
| Eisteddfod Cylch Penllyn | £150 |
| Theatr Bara Caws | £100 |
| Clwb Pêl Droed | £200 |
| Sioe Llanuwchllyn | £100 |
| CFFI Glannau Tegid | £200 |
| Eisteddfod genedlaethol | £100 |
| Clocswyr Tegid | £50 |
| CFFI Meirionnydd | £200 |

1966 **Materion lleol:** ystyriwyd materion gan aelodau'r Cyngor Cymuned :

i. Mwsogl ar ddarn o Lwybr y Cei: cytunwyd i holi Liz Haynes am y peiriant i'w godi.
ii. Ambiwlans yn hir yn cyrraedd mewn achos o argyfwng yn ddiweddar: roedd yr ambiwlans wedi teithio o Gaernarfon ar hyd ffordd y mynydd o Drawsfynydd i gyrraedd Llanuwchllyn. Cytunwyd i anfon llythyr at y gwasanaeth ambiwlans yn annog bod eu staff yn defnyddio'r priffyrdd.
iii. Tyfiant coed helyg yn andwyo ffens y fynwent: cytunwyd i drefnu i lifio'r coed ar unwaith. Cytunwyd i ystyried atgyweirio'r ffens ar ôl gweld maint y difrod. Cytunodd y Cadeirydd wneud y trefniadau ar frys cyn tymor yr ŵyn bach.
iv. Cytunodd Arwel Lloyd Jones i gysylltu gyda Chartrefi Cymunedol Gwynedd oherwydd bod ffenestri ar agor mewn fflat sy'n wag ym Maesypandy.
v. Adroddodd Alwyn E Jones iddo ef a'r Cynghorydd Sir gynnal cyfarfod gyda Chadeirydd Cynefin i drafod creu mwy o ofod ar gyfer parcio ym Maesypandy. Roedd yn gyfarfod adeiladol iawn a disgwylir ymateb gan Cartrefi Cymunedol Gwynedd.

1967 **Partneriaeth Penllyn**: derbyniwyd adroddiad Huw Antur a soniodd fod y cais am grantiau i adnewyddu'r llawr uchaf ar fin cael eu cwblhau. Dywedodd er bod prysurdeb mawr yng Nghanolfan Henblas, y dymuniad ydyw i ddatblygu'r ochr lles ymhellach. I'r perwyl, fe fydd mudiadau lles yn cynnal sesiwn agored yno ar 22/2/19 rhwng 10.00 a 2.00. Bydd Huw Antur a Alwyn E Jones yn cynrychioli'r Cyngor yno. Cynhaliwyd cyfarfod ar 5/2/19 gyda Steffan Lewis o Gyngor Gwynedd i drafod trosglwyddo rhedeg toiledau'r Bala i ofal Cwmni Pum Plwy Penllyn cyf. Roedd yn gyfarfod adeiladol iawn.

**1968 Gohebiaeth:**

i. **Parc Cenedlaethol Eryri:** Ystyriwyd Cais NP5/71/137D Adeiladu garej ar wahân, Cefn Rhos Cottage. Cytunwyd i beidio a rhoi sylw ar y cais ond i ysgrifennu at Barc Cenedlaethol Eryri ac at y Pensaer i dynnu eu sylw mai Cefn Rhos ydyw'r enw cywir ar y lle hwn.

ii. **Tai Fforddiadwy:** Cynhelir Diwrnod Agored ar 18/2/19. Dim ond yn ardal Maesypandy mae gofod ar gyfer adeiladu o'r newydd yn y pentref, ac anogir pawb sydd â diddordeb i fynychu'r diwrnod agored ac i glywed am y cymorth sydd ar gael.

*Cadarnhawyd dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: 5/3/19 yn y Neuadd Bentref*